

Ymgynghoriad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ynglŷn â'r Cyfrifiad. Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

5.1 Sylwadau cyffredinol

C1: Beth yw eich safbwyntiau ar y gwahanol ddulliau o gynnal cyfrifiad a ddisgrifir yn y ddogfen hon?

CNC: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i ystyried ac ymateb i'r ddau opsiwn o ran dyfodol y Cyfrifiad, ac mae'n cydnabod bod cryfderau a sialensiau'n gysylltiedig â'r naill drefn a'r llall. Ein diben ni yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol. Fel rhan o'n gwaith rydym yn defnyddio data'r Cyfrifiad (a'r amcangyfrifon poblogaeth blynyddol cysylltiedig) mewn ffyrdd cyfyngedig, ond pwysig. Mae hyn yn cynnwys defnyddio data'r cyfrifiad fel sail i'n harolygon aelwydydd a'n harolygon safleoedd, ac wrth ddatblygu'r mynegai perygl llifogydd.

At ei gilydd, byddem yn ffafrio'r opsiwn cyntaf sef 'arolwg ar lein unwaith mewn degawd'. Byddem yn dewis yr opsiwn hwn oherwydd pwysigrwydd sicrhau parhad data o ddata'r cyfrifiad blaenorol, ein hangen am ddata wedi'i seilio ar ardaloedd bach a grwpiau poblogaeth bach, a'i fod yn defnyddio dull sydd wedi'i brofi ac wedi ennill ei blwyf.

Er ein bod yn cydnabod manteision yr ail opsiwn, sef defnyddio data gweinyddol ynghyd ag arolwg cyfyngedig o aelwydydd, yn arbennig o safbwynt casglu data'n amlach, mae gennym nifer o bryderon hefyd. Mae a wnelo'r pryderon hyn â sicrhau cywirdeb a chysondeb data gweinyddol, a chyfyngiadau'r drefn hon o ran sicrhau data am ardaloedd daearyddol bach. Yng Nghymru, byddai gennym bryderon hefyd ynglŷn â maint sampl yr arolygon ategol, na fyddai ond yn cynnwys 1% a 4% o aelwydydd.

5.2 Y defnydd a wneir o ystadegau o'r boblogaeth a thai a buddiannau hynny

Mae dealltwriaeth dda o ddefnyddiau a buddiannau yn hanfodol er mwyn deall rhinweddau cysylltiedig pob dull. Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn i chi ddweud wrthym am unrhyw ddefnyddiau neu fuddiannau a geir o ystadegau'r cyfrifiad nad ydym wedi eu deall yn llwyr eto.

Yn eich atebion, rhowch gymaint o dystiolaeth â phosibl. Mae defnyddiau sy'n bodloni gofyniad rheoliadol neu gyfreithiol hefyd o ddiddordeb arbennig.

C2: Nodwch unrhyw ddefnyddiau pwysig a wneir o ystadegau o'r boblogaeth a thai nad ydym wedi'u nodi eisoes.

CNC: Yn ychwanegol at ein defnydd o ddata cyfrifiad i addasu ar gyfer tuedd mewn ymatebion i'n harolygon aelwydydd, rydym yn defnyddio data'r cyfrifiad ar lefel ardaloedd bach, ar y cyd â mapiau perygl llifogydd, i greu mynegi perygl llifogydd. Ymysg yr eitemau cyfrifiad a ddefnyddir mae: aelwydydd un rhiant, poblogaeth hŷn (75+), salwch tymor hir, dim car, y rhai nad ydynt yn berchen ar eu cartref, pobl ddi-waith, gorlenwi. Dywedwyd wrthym fod y gofrestr sy'n cael ei chreu yn cael ei defnyddio ar lefel genedlaethol (Cymru) i ddylanwadu ar y cynllun buddsoddi strategol a fydd yn gwario £14 miliwn ar gynlluniau cyfalaf yn y flwyddyn ariannol nesaf. Caiff ei defnyddio hefyd i bennu pa flaenoriaeth a roddir i waith ar lefel leol

ym mhob cyd-destun perygl llifogydd a bydd yn dylanwadu ar sut y caiff gweddill yr arian, oddeutu £20miliwn, ei wario. Bydd camgyfeirio'r buddsoddiad hwn yn arwain at gollu effeithiolrwydd, er nad yw hyn wedi cael ei fesur.

C3: Nodwch unrhyw fuddiannau ychwanegol pwysig a geir o ystadegau o'r boblogaeth a thai nad ydym wedi'u nodi eisoes.

CNC: Dim sylw

5.3 Effaith dulliau gwahanol o gynnal cyfrifiad ar y defnydd a wneir o ystadegau

Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn am eich safbwyntiau ar yr effaith wirioneddol y byddai'r dulliau gwahanol o gynnal cyfrifiad yn ei chael ar benderfyniadau gweithredol neu fusnes.

C4: Beth fyddai'r effaith os na fyddai'r ystadegau manylaf ar gyfer ardaloedd daearyddol bach iawn a grwpiau bach o'r boblogaeth ar gael mwyach? Effaith fawr, ganolig, fach neu dim effaith o gwbl?

CNC: Effaith Ganolig

C4.1 Os byddwch yn nodi effaith ganolig neu fawr, rhowch ragor o wybodaeth.

CNC: Gweler ein hymateb i C2 ynglŷn â phwysigrwydd data cyfrifiad ar lefel ardal fach ar gyfer ein mynegai perygl llifogydd.

C5: Beth fyddai'r budd ychwanegol os byddai ystadegau ynghylch nodweddion y boblogaeth ar gael yn amlach (h.y. bob blwyddyn) ar gyfer ardaloedd fel Awdurdodau Lleol a Wardiau Etholiadol? Effaith fawr, ganolig, fach neu dim effaith o gwbl?

CNC: Effaith Fach

C5.1 Os byddwch yn nodi effaith ganolig neu fawr, rhowch ragor o wybodaeth.

CNC: Ddim yn berthnasol

5.4 Effaith dulliau gwahanol o gynnal cyfrifiad ar ymchwil hanesyddol

Mae SYG wedi gweithio gyda'r Archifau Gwladol ac achyddion i ddeall sut y defnyddir gwybodaeth o'r cyfrifiad mewn ymchwil hanesyddol. Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn i chi ddweud wrthym am unrhyw ddefnyddiau a wneir o wybodaeth o'r cyfrifiad neu fuddiannau a ddaw yn sgil hynny nad ydym wedi'u deall yn llwyr eto ac i rannu eich safbwyntiau ar effaith bosibl y gwahanol ddulliau o gynnal cyfrifiad.

C6: Nodwch unrhyw ddefnydd pwysig a wneir o wybodaeth o'r cyfrifiad ar gyfer ymchwil hanesyddol nad ydym wedi'i nodi eisoes.

CNC: Dim sylw

C7: Pa fanteision neu anfanteision ar gyfer ymchwil achyddol neu hanesyddol y gallwch eu gweld yn sgil cyflwyno ateb sy'n seiliedig ar archifo ffynonellau data gweinyddol?

CNC: Dim sylw

5.5 Rheoli risgiau

Fel y disgrifir yn adran 3, mae risgiau a chyfleodd yn gysylltiedig â'r ddau ddull o gynnal cyfrifiad. Mae'r cwestiynau hyn yn cynnig cyfle i roi sylwadau ar y rhain ac i godi unrhyw faterion eraill.

C8: Beth yw eich safbwyntiau ar y risgiau sy'n gysylltiedig â phob dull o gynnal cyfrifiad a sut y gellid eu rheoli?

CNC: Gweler ein hymateb i C1 Sylwadau Cyffredinol

C9: A oes unrhyw faterion eraill y dylem eu hystyried yn eich barn chi?

CNC: Gweler ein hymateb i C1 Sylwadau Cyffredinol

5.6 Sut i ymateb

Cyflwynwch eich safbwyntiau drwy'r [arolwg ar lein](#) erbyn 13 Rhagfyr 2013.